**EITEM AR YR AGENDA: 14**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**21ain Mai 2007**

**DATGANIAD BLYNYDDOL O SICRWYDD ARCHWILIAD MEWNOL 06/07**

**Adroddiad gan Mike Halstead,**
**Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** O dan dermau y rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud adolygiad o effeithiolrwydd ei system o Reolaeth Fewnol. Mae Archwiliad Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac yn gyfrannydd arwyddocaol i baratoad y Datganiad o Reolaeth Fewnol, sy'n rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon.

**Gwybodaeth**

**2.** Mae Cod Ymarfer CIPFA am Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU 2006 yn gofyn i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Panel Gweithredol ar yr holl system o reolaeth fewnol, yn cynnwys os yw trefniadau rheoli risg a llywodraeth gorfforaethol yn gymwys. Dylid nodi hefyd na all sicrwydd fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall yr Archwiliad Fewnol ddarparu i'r Panel Gweithredol yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendid mawr yn yr holl system o reolaeth fewnol.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**3.** Mae'r adroddiad yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith yr Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben Mawrth 2007. Cefnogir yr Adroddiad gan Atodiad A, sy'n manylu barn archwilio'r aseiniadau gwblhawyd yn ystod 2006/07.

**Argymhelliad**

**4.** Fod y Datganiad Blynyddol o Sicrwydd Archwiliad Mewnol yn cael ei dderbyn a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynnwys tystiolaeth Datganiad Rheolaeth Fewnol 2006/07.